Nos Sul 3ydd Mai

T A L W R N Y B E I R DD
a gwobrwyo enillydd Tlws yr Ifanc
ym Mar y Pafiliwn am 6.30

CYSTADLEUAETH CYMDEITHAS
EISTEDDFODAU CYMRU
(Awst 2019 – Gorffennaf 2020)

LLEFARU neu GYFLWYNO DARN DIGRI'

Oed – Agored. Gellir dewis barddoniaeth neu ryddiaith sydd eisoes wedi ei gyhoeddi, neu gellir cyflwyno darn gwreiddiol (rhestr awduron darnau digri' ar gael ar wefan Cymdeithas Eisteddfodau Cymru).

- **Disgwylir i'r iaith fod yn weddus.**
- **Dylai'r pwyslais fod ar gyfleu hiwmor y darn a'i drosglwyddo i'r gynulleidfa.**
- **Caniateir defnyddio props os ydyw'n ychwanegu at y perfformiad.**
- **Perfformiad dim mwy na 4 munud. Rhaid sicrhau copïau i'r beirniad.**

Gwobrau: 1. £50; 2. £40; 3. £30.

Byddai ennill gwobr (1af 2il neu 3ydd) mewn eisteddfod leol rhwng Eisteddfod Genedlaethol 2019 a diwedd Gorffennaf 2020 yn rhoi'r hawl i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol 2020 am wobrau o £100, £60 a £40.

YSGOLORIAETH

Cynigir Ysgoloriaeth Cymdeithas Eisteddfodau Cymru (gwerth £500) yn flynyddol, i alluogi'r enillwyr i dderbyn hyfforddiant pellach ym maes perfformio ar lwyfan eisteddfodol. Bydd yn cael ei chyflwyno yn ôl dewis y beirniad – i'w rhannu os dyfernir mwy nag un yn deilwng. Dim ond unwaith mae'n bosib ennill yr ysgoloriaeth.

Eisteddfodau Teulu James Pantyfedwen Pontrhydfendigaid 2020



Pafiliwn Pontrhydfendigaid

Mai 1 – 3, 2020

(Sylwer: Bydd Eisteddfod arferol y dydd Llun yn symud i'r dydd Sul yn 2020)

Rhestr Testunau llawn ar gael o fis Tachwedd ymlaen oddi wrth yr Ysgrifenyddion Cyffredinol:

Selwyn a Neli Jones
Glanrhyd, Maesydderwen
Pontrhydfendigaid, Ystrad Meurig
Ceredigion SY25 6EU
01974 831695
glanrhyd@btopenworld.com

Nos Sadwrn 2il Mai

SADWRN Y SÊR

Noson o gystadlu o lwyfan y Sioeau Cerdd a'r Ddrama ac Unawd a Llefaru i rai o dan 25 oed

am 8.00 o'r gloch

Unawd Allan O Sioe Gerdd, Opera Ysgafn neu Ffilm i rai dan 19 oed – Dewisiad.
Gwobrau: 1. £50; 2. £30; 3. £20.

Llefaru dan 25 oed: Dewisiad.
Gwobrau: 1. Cwpan Her Parhaol Peter Davies a £80; 2. £50; 3. £30.

Unawd o dan 25 oed: Dewisiad.
Gwobrau: 1. Cwpan Her Parhaol Glenys Slaymaker Thomas a £150; 2. £100; 3. £50; 4. £25.

Unawd Allan O Sioe Gerdd, Opera Ysgafn neu Ffilm – Agored
Gwobrau: 1. £250; 2. £175; 3. £100; 4. £50.

Cyflwyniad Dramatig Unigol hyd at 8 munud o hyd – Agored.
Gwobrau: 1. £250; 2. £175; 3. £100; 4. £50.

Bydd y ddwy gystadleuaeth uchod yn digwydd ar y cyd, a chyflwynir Tlws Parhaol Moc Morgan i'r perfformiad gorau allan o'r ddwy gystadleuaeth.

Bydd y cystadleuwyr i gyd yn ymddangos ar y llwyfan yn holl gystadleuthau'r eisteddfodau.

TESTUNAU LLENYDDIAETH 2020

1. **Y GADAIR –** Cerdd neu ddilyniant o gerddi mewn cynghanedd heb fod yn hwy na 80 llinell: **Gwahanu** neu **Gadael.**
Noddir y wobr ariannol gan Dr Ted Jones, er cof am ei frawd, John Jones, cyn ysgrifennydd Llen a Llefaru.
Gwobr: Cadair Fechan Arian a £150.

2. **Y GORON –** Cerdd neu ddilyniant o gerddi yn y mesur rhydd heb fod yn hwy na 80 llinell: **Llanw a Thrai,** neu **Llanw** neu **Trai**
Gwobr: Coron Fechan Arian a £150.

3. **EMYN – Emyn Angladdol**, neu addas i'w ganu ar lan y bedd.
Gwobrau: 1. £40; 2. £30; 3. £20.

4. **ENGLYN DIGRI– Yr Archdderwydd.**
Gwobrau: 1. £40; 2. £30; 3. £20.

5. STORI FER – Cannwyll.
Gwobrau: 1. £40; 2. £30; 3. £20.

6. **CYWYDD (12 llinell) – i Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion.**
Gwobrau: 1. £40; 2. £30; 3. £20.

7. **SONED neu DELYNEG – Unigedd.**
Gwobrau: 1. £40; 2. £30; 3. £20.

8. **TLWS YR IFANC (cyfyngedig i oedran blynyddoedd 7-13)** – Detholiad o dri darn cyferbyniol.
Gwobrau: 1. Cadair Her Barhaol Selwyn a Neli Jones, Cadair fechan (i'w chadw gan yr enillydd) a £50; 2. £40; 3. £30.

9. **TALWRN Y BEIRDD**: Pedwar ymhob tîm. Y timau i anfon am y tasgau cyn y gystadleuaeth (Y gystadleuaeth i'w chynnal ar y nos Sul).
Gwobrau: 1. £100 (Gwobr Goffa Raymond Osborne Jones) a Tharian Her Barhaol Raymond Osborne Jones; 2. £80; gyda £40 i bob tîm anfuddugol.

Yr holl gyfansoddiadau yn dwyn ffugenw yn unig, ac enwau'r ymgeiswyr mewn amlen dan sêl, i fod yn llaw Ysgrifennydd Adran Llen, Dr Ted Jones, Y Fron, Ffair Rhos, Ystrad Meurig, Ceredigion SY25 6BP, fan bellaf erbyn **EBRILL 8fed 2020**. Rhaid i bob ymgeisydd am y Gadair a'r Goron anfon **DAU** gopi o'i waith i'r gystadleuaeth.